



Cyflwyniad Croeso i Wasanaeth Offrwm Pasg eleni. Fe wnaeth nifer o ferched o wahanol rannau o'r Cyfundeb ddechrau ei gynllunio ychydig dros flwyddyn yn ôl. Mae'r gwasanaeth hwn yn dilyn traddodiad a sefydlwyd 135 o flynyddoedd yn ôl er mwyn codi arian ar gyfer cenadesau'r Eglwys Fethodistaidd. Erbyn heddiw, Cronfa'r Genhadaeth Fyd-eang sydd yn derbyn yr arian a'r gweddïau. Yn 2018, codwyd dros £355,000 trwy wasanaeth Offrwm y Pasg.

Yr ysbrydoliaeth tu ôl i'r thema, "Byrddau mwy, rhwystrau llai" yw'r geiriau: "Pan fydd gennych fwy nag mae arnoch ei angen, dylech ddarparu bwrdd mwy, nid codi rhwystr mwy o amgylch y bwrdd."

Byddwn yn gweld lluniau ac yn clywed storïau am bobl ledled y byd sydd yn ymateb i alwad Duw i ddangos lletygarwch cynhwysfawr a haelioni syfrdanol. Wrth inni rannu'r storïau hyn, gweddiwn am ras a gostyngeiddrwydd i rannu'r hyn a roddwyd i ni, i estyn croeso i eraill ac i ddymchwel y rhwystrau sydd mor aml yn ein gwahanu.

Mae'r gwasanaeth hwn yn rhodd gan Ferched Methodistaidd ym Mhrydain i'r Eglwys gyfan; yn weithred o addoliad a hefyd yn gyfle i glywed storïau ac ymateb drwy gyfrannu'n ariannol a thrwy ein gweddïau a'n gweithredoedd yn ein bywydau beunyddiol. Bob blwyddyn bydd menyw wahanol yn arwain y gwaith o ysgrifennu'r gwasanaeth. Ysgrifennwyd gwasanaeth 2019 yn bennaf gan Anne Browse, Llywydd Merched Methodistaidd ym Mhrydain 2015-2017, sydd yn bregethwr lleol yng Nghylchdaith Tiverton a Wellington.

Gweddiwn y bydd y cyfnod hwn o baratoi ac addoli yn eich helpu chithau i wneud byrddau'n fwy a rhwystrau'n llai – fel unigolion, gyda'ch gilydd ac wrth i chi ymestyn allan at eraill.

Rhannwch y nodiadau hyn â'r rhai sy'n helpu i gynllunio eich gwasanaeth lleol.

Gwnewch lungopiau o'r nodiadau os yw hynny o gymorth. Sicrhewch fod pob trysorydd yn gyfarwydd â'r cyfarwyddiadau ar gyfer ymdrin â'r arian a Chymorth Rhodd.

Cyn y gwasanaeth

- Trefnwch i **amlenni Offrwm y Pasg** gael eu dosbarthu (ynghyd â'r nodau llyfr sy'n rhoi mwy o wybodaeth) i bob capel yn eich cylchdaith yn ystod y Grawys ac yn arbennig ar Sul y Pasg.
- Sicrhewch fod gan drysoryddion y capeli a'r gylchdaith gopi o'r **canllawiau/cyfarwyddiadau ariannol** sydd yn rhan o'r nodiadau hyn ac sydd hefyd ar gael ar wefannau Merched Methodistiaidd ym Mhrydain a'r Eglwys Fethodistaidd..
- Lawrlwythwch y **poster A3** i hysbysebu'r gwasanaeth. Cofiwch gwblhau'r rhan sy'n dangos ble a phryd y cynhelir y gwasanaeth. Gallwch lawrlwytho poster llai, maint **A4**, o'r wefan a'u hargraffu'n lleol os dymunwch.
- Hysbyseb wch y gwasanaeth yng nghyhoeddiadau'r capeli ac ar y cyfryngau cymdeithasol, gan estyn croeso cynnes i bawb.
- Cysylltwch â'ch cynrychiolydd ar Fforwm Taleithiau Merched Methodistiaidd (gweler www.mwib.org.uk), gan roi'r manylion am y gwasanaeth fel y caiff yr wybodaeth ei chynnwys yn y rhestr o'r holl wasanaethau lleol.

Dylai'r nodiadau hyn roi i chi bopeth y mae arnoch ei angen er mwyn edrych i mewn i'r thema yn ogystal â pharatoi ar gyfer y gwasanaeth ei hun. Efallai yr hoffech hefyd ddefnyddio'r myfyrdodau ar gyfer y Grawys ar wefan Merched Methodistiaidd ym Mhrydain: www.mwib.org.uk.

Darllenwch drwy drefn y gwasanaeth a'r nodiadau hyn er mwyn sicrhau bod popeth gennych yn barod ar gyfer y gwasanaeth. Gallwch lungopiö unrhyw ran o'r ddogfen hon y bydd arnoch ei hangen ar gyfer eich gwasanaeth, yn enwedig y storïau sydd i'w gweld yn nes ymlaen. Rydym hefyd wedi cynnwys syniadau y gellir eu defnyddio gyda phlant neu bobl o bob oed, neu fel rhan o sesiwn mwy creadigol. Mae croeso i chi ddefnyddio'r rhain fel sydd yn addas yn eich cyd-destun lleol chi.

Cerddoriaeth

Awgrymiadau yw'r emynau sydd i'w gweld yn nhrefn y gwasanaeth ac rydym yn deall y byddwch efallai yn dymuno canu rhai eraill.

Y darn corawl

Awgrymir cynnwys darn corawl yn nhrefn y gwasanaeth os hoffech chi. Ar y pwynt hwn yn y gwasanaeth, byddai'n bosibl cael emyn ychwanegol neu emyn o un o wledydd eraill yr Eglwys Fyd-eang.

Gweddïau a darlleniadau

Salm 146, y gellir ei darllen yn atebiadol.

Myfyrdod

Efallai yr hoffech wahodd siaradwr i ddweud gair yn y rhan hon o'r gwasanaeth, neu gallech wrando ar gerddoriaeth dawel fel y caiff pawb gyfle i fyfyrion. Syniad arall posib yw trafod mewn grwpiau bach, sut y gallwn ni gael byrddau mwy a rhwystrau llai (mae cwestiynau i sbarduno trafodaeth i'w cael yn yr adnoddau ychwanegol).

Dyma enghraifft o syniad ar gyfer pregeth fach gyda thri phen y gellir eu datblygu:

- Byrddau mwy a rhwystrau llai yn yr Hen Destament (Eseia 58:1-12)
- Byrddau mwy a rhwystrau llai yn y Testament Newydd (Ioan 6:1-13)
- Byrddau mwy a rhwystrau llai heddiw (enghreifftiau lleol neu enghreifftiau o'r newyddion).

Efallai yr hoffech ddewis themâu o'r lluniau a'r storïau, hefyd, ar gyfer sgwrs neu er mwyn edrych ar y lluniau eto ar y sgrin. Y prif themâu yw:

1. **Gwledydd Prydain:** rhannu bwyd o wahanol ddiwylliannau; dysgu ieithoedd ein gilydd.
2. **De Affrica:** dod â phobl at ei gilydd, i greu perthynas a magu hyder.
3. **Bangladesh:** gwaith asiantaethau fel All We Can, yn rhai o'r sefyllfaoedd mwyaf truenus yn y byd.
4. **Yr Almaen:** helpu'r rhai sydd wedi dod i fyw mewn cymunedau i deimlo bod iddyn nhw groeso a'u bod yn rhan o bethau.
5. **Ethiopia:** pobl mewn cymunedau yn dod ynghyd i rannu adnoddau a dysgu ffyrdd newydd o'u cynnal nhw eu hunain a'u teuluoedd.

Ymateb

Caniatewch ychydig bach o amser ar ddiwedd y gwasanaeth i bawb fyfyrion dawel cyn yr emyn olaf a'r Fendith. Eleni rydym yn syml iawn yn annog pobl i rannu lluniaeth ar ôl y gwasanaeth neu ar ryw adeg arall. Ar ddiwedd trefn y gwasanaeth, cynigir her sef bod pobl yn ceisio siarad â rhywun nad ydynt wedi ei gyfarfod o'r blaen neu nad ydynt yn ei adnabod yn dda iawn. Cofiwch na fydd rhai pobl yn gallu symud yn rhwydd i ran arall o'r capel ac felly bydd angen i bwy bynnag sydd yn medru fynd atyn nhw.

Yn fwriadol, rydym wedi gwneud yr ymateb eleni yn wahanol i'r blynyddoedd o'r blaen. Nid oes angen coeden neu fwrdd i osod pethau ac felly mae'r posibilïadau yn fwy hyblyg ar gyfer creu canolbwynt yn y man addoli. Defnyddiwch eich dychymyg i greu rhywbeth o gwmpas thema byrddau mwy a rhwystrau llai.

Darluniau a storïau

Llungopiwch y darluniau ar gyfer eich darllenwyr neu ewch i wefan MWiB er mwyn cael pob stori unigol. Nid ydynt wedi'u cynnwys yn llawn yn y taflenni ar gyfer y gwasanaeth ond gall pobl eu lawrlwytho o'r wefan i'w darllen eto ar ôl y gwasanaeth. Mae lluniau i gyd-fynd â'r storïau yn y cyflwyniad PowerPoint a gellir eu lawrlwytho ar wahân, hefyd. Mae pob stori ar ffurf dialog a bydd angen dau ddarllenydd (tri ar gyfer un ohonynt).

Darlun 1 – Byrddau mwy yng ngwledydd Prydain

(Dau ddarllenydd D1 a D2)

D1: Yn Nwyrain Anglia, Lloegr, mae Grŵp Merched Rhyngwladol yn cyfarfod bob pythefnos yn nhref Newmarket. Beth am gael gair ag un o'r aelodau, Ruth Arnold, i sôn am y llun hwn?

Ruth, soniwch wrthym ni am eich cyfarfodydd.

D2: Rydym ni'n cyfarfod o amgylch y bwrdd mawr sydd i'w weld yn y llun. Byddwn bob amser yn cael coffi a bwyd gyda'n gilydd. Bydd rhywun yn dod â bwyd y mae wedi ei goginio gartref – pwy bynnag sydd awydd gwneud. Weithiau byddwn yn paratoi bwyd traddodiadol o ryw wlad, gyda'n gilydd, yn barod i'w goginio – fel sydd i'w weld yma. O dro i dro byddwn yn gwneud crefftau, fel gosod blodau. Bryd hynny byddwn yn nodi unrhyw eiriau 'newydd' i'r rhai nad ydynt yn siarad Saesneg fel iaith gyntaf, a cheisio eu defnyddio'n aml fel y gall pobl ddod yn gyfarwydd â nhw.

D1: Beth oedd yn digwydd pan dynnwyd y llun arbennig yma?

D2: Roedd un o'r aelodau sy'n dod o Wlad Pwyl wedi gwneud teisen foron ar ein cyfer. Fe wnaeth hi hyn wrth y bwrdd tra buom yn sgwrsio. Cafodd y deisen ei choginio ym 'mhot pobi' trydan hen iawn ei nain o Wlad Pwyl. Roedd ffrind arall o Romania yn gwneud saig sawrus i ni ei phrofi. Nid oes ganddi fawr o Saesneg ond roeddem ni i gyd yn deall y cynhwysion!

D1: Sut mae eich bwrdd chi wedi mynd yn fwy, felly?

D2: Syniad ein gweinidog a'i wraig, sy'n dod o Corea, oedd sefydlu'r grŵp. Rydym wedi cwrdd â merched arbennig iawn yn ystod y flwyddyn neu ddwy ddiwethaf ac mae wedi bod yn fendithiol iawn. Ymhlith y merched sydd wedi ymuno â ni mae rhai o Wlad Pwyl, Bwlgaria, Romania, India, Bangladesh, yr Eidal, De Affrica a nifer o wledydd eraill Affrica. Mae gennym fap ac rydym yn chwilio am y llefydd y mae pobl yn dod ohonyn nhw ar y map, pan gyrhaeddant am y tro cyntaf.

D1: A sut mae'r rhwystrau wedi mynd yn llai?

D2: Er nad ydym ni i gyd yn siarad yr un iaith, rydym yn gallu dod yn ffrindiau a deall mwy am ein gilydd wrth gyd-fwyta a mwynhau bwyd o'n gwahanol ddiwylliannau o gwmpas y bwrdd. Wrth rannu'r sesiynau hyn gyda'n gilydd, rydym wedi goresgyn rhwystrau iaith.

D1: Diolch yn fawr, Ruth.

Darlun 2 – Byrddau mwy yn Ne Affrica

(Dau ddarllenydd D1 a D2)

D1: Mae Carolyn Lawrence a Rachel Allison wedi bod yn ymweld â'r Parchedig Jane Day, ein Partner mewn Cenhadaeth yn Ne Affrica. Cawn yr hanes gan Carolyn.

Ble cafodd y llun yma ei dynnu, Carolyn?

D2: Ger Johannesburg, De Affrica.

D1: Pwy yw'r rhain yn y llun?

D2: Merched sydd wedi dod at ei gilydd o drefi cyfagos, i gymryd rhan mewn Rhaglen 'Magnify – Merched yn Arwain'. Y Parchedig Jane Day wnaeth ysgrifennu ac arwain y rhaglen.

D1: Beth oedd yn digwydd yma?

D2: Roedd y merched newydd gymryd rhan mewn diwrnod 'dod i wybod am ysbrydolrwydd' a'r thema oedd cariad. Yn ystod y bore roeddent wedi ymdawelu i wrando ar Dduw, gan ddewis o blith y gweithgareddau a'r gweddïau a baratowyd i'w helpu. Ar ddiwedd y bore fe wnaethant gyfranogi o'r Cymun Bendigaid ac yn y llun yma fe welwn y merched yn mwynhau cinio gyda'i gilydd cyn mynd adref.

D1: Sut mae'r bwrdd wedi mynd yn fwy?

D2: Maent wedi cynnal y rhaglen sawl gwaith erbyn hyn ac mae llawer o ferched wedi cael eu paratoi, eu hannog a'u nerthu i wasanaethu Duw, pa ran bynnag maen nhw'n ei chwarae yng nghenhadaeth Duw. Mae gan lawer ohonyn nhw storïau ysbrydoledig i'w hadrodd am y modd y

mae'r cwrs wedi eu helpu i sylweddoli eu bod yn werthfawr yng ngolwg Duw, a sut yr aethant ymlaen i wasanaethu fel arweinwyr mewn llawer o wahanol ffyrdd.

D1: Sut mae'r rhwystrau wedi mynd yn llai?

D2: Yn hanesyddol mae'r genedl hon wedi cael ei rhwygo oherwydd rhaniadau hil a lliw. Yn y diwrnodau 'Magnify', daw merched o bob cefndir ynghyd i gyfranogi mewn cymdeithas â'i gilydd, rhai wedi byw yn Ne Affrica drwy eu hoes a rhai wedi mudo yma o Ewrop a chenhedloedd eraill Affrica. Mae hyn yn arwyddocaol oherwydd, er i apartheid ddod i ben yn 1994, mae gwaddol dyddiau'r arwahanu yn dal gyda ni, hyd yn oed mewn rhai eglwysi gwaetha'r modd. Mae dod at ein gilydd ar y diwrnodau hyn yn cynnig goleuni mewn lle tywyll, yn arwydd o'r undod a ddaw yng Nghrist.

D1: Sut y gallwn ni weddio dros y bobl hyn?

D2: Gweddïwch dros genedl De Affrica, ar i'w harlywydd arwain yn onest a doeth er lles pobl o bob cefndir. Gweddïwch ar inni barhau i weld iachâd a chymod ymysg yr holl bobl, ac ar i Gristnogion uno i arwain y ffordd er mwyn ceisio goresgyn anghyfiawnder a thlodi.

D1: Rwy'n deall fod Jane Day ei hun wedi anfon neges atom?

D2: Ydi. Dyma mae hi wedi ei ysgrifennu: "Pob bendith a llawer o ddiolch am gofio'r Eglwys Fyd-eang fel hyn – mae wir yn gwneud gwahaniaeth."

Darlun 3 – Byrddau mwy ym Mangladesh

(Tri darllenydd, D1, D2 a D3)

D1: Dyma Laura Cook, Rheolwr Cyfathrebu ar gyfer All We Can, yn sôn wrthym am eneth fach a'i thad ym Mangladesh.

Laura, ble a phryd gafodd y llun yma ei dynnu?

D2: Cafodd ei dynnu ddechrau'r flwyddyn 2018, yng Ngwersyll Ffoaduriaid Charmarkul yn Cox's Bazar, Bangladesh. Un o'r gwerysilloedd ar gyfer ffoaduriaid Rohingya oedd hwn, wedi iddyn nhw ffoi rhag y trais ym Myanmar. Mae cartref bach Mohammad a'i deulu yn uchel i fyny ar un o'r bryniau yn y gwerysll.

D1: Pwy ydi'r bobl yma?

D2: Mohammad ac un o'i ferched sydd yn y llun, yn eistedd ar y llawr yn eu cartref yn y gwerysll. Ystafell fechan yw eu cartref, wedi'i gwneud o bolion bambw a chynfasau plastig. Y llawr yw eu 'bwrdd'.

D1: Allwch chi ddweud mwy amdany'n nhw?

D2: Roedd y teulu wedi dod i Fagladesh chwe mis yn gynharach, yn dilyn cyfnod o drais ym Myanmar. Yr un ystafell hon oedd gan y teulu ar gyfer gweddio, gorffwys, cynnal sgwrs, chwarae, cysgu a chael bwyd. Roedd Mohammad yn eistedd gyda'i enethod bach, ei wraig a'i deulu estynedig ac roeddent yn sôn wrthyf am eu taith i Fagladesh.

D1: Sut mae'r bwrdd wedi mynd yn fwy?

D2: Yn y sefyllfa hon, mae'r 'bwrdd' yn golygu'r gwerysll. Mewn chwe mis yn unig, fe deithiodd bron i 700,000 o bobl, a'r rheini wedi dychryn a ddim yn gwybod ble i droi, o Fyanmar i Fagladesh. Dywedodd Mohammad yr hanes amdano'n cael cynnig lle i eistedd wrth y 'bwrdd' mewn ffordd arbennig. Dyma ei eiriau:

D3: Roeddem ni'n teithio ers pedwar diwrnod. Roeddem yn flinedig ac yn wlyb oherwydd y dŵr, a heb gael dim byd i'w fwyta. Fe wnaethom ni guddio oherwydd roedd arnom ni ofn y bydden nhw'n dod o hyd inni a ninnau heb fod mewn lle diogel eto. Clywsom bobl yn dod ac roedd arnom ni ofn. Ond wedyn gwelsom mai pobl leol oedden nhw, pobl o Fagladesh, wedi dod i roi cyw iâr i ni i'w fwyta oherwydd gallent weld fod arnom ni eisiau bwyd.

D1: A sut mae'r rhwystrau wedi mynd yn llai?

D2: Mae'r bobl Rohingya wedi hen arfer â gweld rhwystrau sydd wedi cael eu gosod i'w cadw allan. Mae'r rhai sy'n byw yng ngwersylloedd Cox's Bazar wedi'u hamgylchynu gan rwystrau sy'n dangos terfynau'r ardal lle maent yn byw. Er hynny, mae lletygarwch dieithriaid a haelioni pobl sydd wedi eu cefnogi yn werth y byd i lawer o'r Rohingya. Eglurodd Mohammad wrthyf:

D3: Rydym ni'n ddiogel yma. Rydym ni'n hapus yma. Mae arnom ni eisiau diolch i bawb sydd wedi ein helpu. Rydym yn ddiolchgar i Dduw ac yn ddiolchgar i'r rhai sydd wedi ein helpu.

D1: Sut y gallwn ni weddio dros y bobl hyn?

D2: Fe wnaeth All We Can ofyn i 20 o wahanol rai o blith y Rohingya beth yr hofffen nhw i ni ei weddio. Dyma'r atebion mwyaf cyffredin:

- R2: Gweddio am heddwch ym Myanmar.
- R3: *Diolch i Dduw am achub y bobl Rohingya.*
- R2: Gweddio am hir oes a hapusrwydd i'r rhai sydd wedi eu helpu.
- R3: *Gweddio dros y bobl Rohingya, ar iddynt fod yn hapus.*

D1: Pa wahaniaeth y mae prydau fel hyn wedi'i wneud?

D2: Mae'r prydau sy'n cael eu rhannu yn y llefydd bach yma yn achub bywydau. Cafodd gobaith ei adfer oherwydd y pryd o gyw iâr a ddisgrifiwyd gan Mohammad – pryd y bu pobl leol ym Mangladesh yn ddigon dewr i'w roi. Mae gallu bwyta fel teulu a themlo'n ddiogel yn rhywbeth sy'n gwneud i lawer o bobl roi moliant. Mae'r prydau hyn yn werthfawr oherwydd eu bod yn adfer ymdeimlad o gael noddfa a normalrwydd mewn amgylchiadau trawmatig sydd ymhell o fod yn normal.

D1: Diolch am rannu'r hanes yma â ni, Laura.

Darlun 4 – Byrddau mwy yn yr Almaen

(Dau ddarllenydd D1 a D2)

D1: Yn yr Almaen, mae Barry a Gillian Sloane, ein partneriaid mewn cenhadaeth, yn ymwneud ag Inspire, sef mynegiant newydd o eiddo'r Eglwys yn ninas Chemnitz.

Gillian, pwyl yw'r bobl sydd wedi dod at ei gilydd yma?

D2: Grŵp o ffoaduriaid o Syria ac Iraq yw'r rhain, yn eistedd gyda rhai o aelodau ein tîm ni. Mae un o'r tîm yn dod o Sierra Leone ac un yn dod o Singapore. Maen nhw'n gweithio ar Fwrdd Cyffredinol Gweinidogaeth Fyd-eang yr Eglwys Fethodistaidd Unedig.

D1: Beth sy'n digwydd yma?

D2: Y grŵp crefftiau creadigol yw hwn ar gyfer merched sy'n ffoaduriaid. Rydym ni'n darparu defnyddiau ac yn rhannu te a choffi gyda'n gilydd. Mae'r merched yn dysgu siarad Almaeneg wrth iddynt ymlacio gyda'u crefftiau.

D1: Sut mae'r bwrdd wedi mynd yn fwy?

D2: Mae newyddion yn mynd ar led am y grŵp; mae'r merched wedi dweud wrth ferched eraill a'u hannog i ddod. Mae'r grŵp yn tyfu.

D1: A sut mae'r rhwystrau wedi mynd yn llai?

D2: Cafodd y gwahoddiad i'r grŵp crefftiau ei gyfieithu i Arabeg. Roedd hyn yn helpu'r merched i deimlo bod iddyn nhw groeso. Roeddent yn deall fod arnom ni eisiau eu helpu.

D1: Sut y gallwn ni weddio dros y merched hyn?

D2: Gweddïwch os gwelwch yn dda gyda ni y bydd y merched hyn yn cael eu helpu i ddod yn rhan o'r gymdeithas yn yr Almaen, y byddant o dipyn i beth yn dysgu cyfathrebu mewn Almaeneg, y byddant yn gallu dechrau ailadeiladu eu bywydau.

D1: Pa wahaniaeth y mae 'prydau' fel hyn wedi'i wneud?

D2: Mae eistedd o amgylch y bwrdd wedi helpu'r merched i deimlo eu bod yn perthyn, nad ydynt mwyach yn ddieithriaid i ni nac i'w gilydd.

Darlun 5 – Byrddau mwy yn Ethiopia

(Dau ddarllenydd D1 a D2)

D1: Aeth Jill Baker i ymweld ag Ethiopia pan oedd hi'n Is-lywydd y Gynhadledd Fethodistaidd yn 2017/18. Mae hi'n dweud hanes ei llun wrthym ni: Jill yw'r ail o'r chwith, wrthi'n helpu Claire Welch o All We Can i dorri'r bara.

Ble roeddech chi pan gafodd y llun yma ei dynnu, Jill?

D2: Cafodd y llun ei dynnu yn Ethiopia, mewn grŵp hunangymorth i ferched.

D1: Pwy yw'r rhain yn y llun?

D2: Rydw i gyda Claire Welch a thri aelod o staff y sefydliad y mae All We Can yn cydweithio ag ef, sydd ar hyn o bryd yn helpu cymunedau gwledig tlawd yn Ethiopia.

D1: Beth oedd yn digwydd yma?

D2: Mae'r merched yn y gymuned wedi cyflwyno bara arbennig sydd ganddynt ar gyfer dathlu, er mwyn dathlu ein hymweliad ac rydym ni wedi cael ein gwahodd i'w dorri. Cyn torri'r bara, cefais fy ngwahodd i weddio dros y bara. Roedd yn foment arbennig iawn.

D1: Sut mae'r bwrdd wedi mynd yn fwy?

D2: Cafodd y merched eu hannog i ffurfio grwpiau hunan-gymorth bychain, lle maent yn cynilo arian ac yn trafod materion sy'n

effeithio ar eu bywydau. Roeddem ni yn y cwt bychan lle mae eu cyfarfodydd yn cael eu cynnal; hen ddesgiau ysgol oedd y byrddau. Roedd yn amlwg eu bod wrth eu boddau o ganfod y ffordd newydd yma o fyw a rhannu fel cymuned ac roedd arnynt eisiau anrhydeddu a diolch i'r bobl oedd wedi helpu. Ymhlith y rheini roeddem ni, sef cynrychiolwyr y rhai sy'n cefnogi All We Can yn y Deyrnas Gyfunol.

D1: Sut mae'r rhwystrau wedi mynd yn llai?

D2: Daeth nifer o ddynion i'r cyfarfod hefyd pan oeddem ni yno, rhai ohonynt yn cynrychioli eu gwagedd oedd yn methu dod. Teimlai'r staff lleol oedd gyda ni ei bod hi'n arwyddocaol iawn bod dynion yn cydnabod gwerth gweithgareddau merched fel hyn.

D1: Sut y gallwn ni weddio dros y bobl hyn?

D2: Diolchwch am eu hysbryd haelionus ac am y modd y maent wedi cofleidio syniadau newydd a ffyrdd newydd o wneud pethau. Gweddïwch y byddant, drwy gefnogi ei gilydd, yn canfod undod a nerth i ymdopi, oherwydd mae eu bywydau yn aml yn heriol iawn. Mae newyn a phrinder bwyd yn parhau i fod yn gyffredin mewn llawer man yn Ethiopia.

D1: Diolch yn fawr, Jill.

Cyllid/Cymorth Rhodd

A fyddwch cystal â darllen y cyfarwyddiadau hyn a'u rhoi i drysorydd eich eglwys a'r Ysgrifennydd Cymorth Rhodd. Mae'n bwysig hefyd eu bod yn cael eu rhoi i Drysorydd Merched Methodistiaid ym Mhrydain yn y Gylchdaith.

Gallwch lawrlwytho'r cyfarwyddiadau ar gyfer casglu Cymorth Rhodd o wefan yr Eglwys Fethodistaidd, www.methodist.org.uk/giftaid.

Mae'r cyfarwyddiadau hyn yn berthnasol i gasgliadau eglwysi unigol. Sylweddolwn, fodd bynnag, fod llawer o wasanaethau Offrwm y Pasg yn cael eu cynnal ar gyfer cylchdaith gyfan; os felly, gall eglwysi lleol wneud casgliad ar wahân gyda swyddogion cylchdeithiol yn eu derbyn wedyn.

Yn unol â chanllawiau Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi ar gyfer ymdrin â rhoddion a'u bancio, rydym yn argymhell y ddau ddewis isod pan fyddwch yn casglu a danfon rhoddion gan ddefnyddio amlenni casglu Offrwm y Pasg.

Gall eglwysi Methodistiaid lleol hawlio Cymorth Rhodd ar eu Hoffrwm Pasg, naill ai trwy ddefnyddio ein Gwasanaeth Swyddfa Cymorth Rhodd*, yn uniongyrchol gan CThEM neu drwy drydydd parti arall y bydd eglwysi efallai yn ei ddefnyddio i hawlio Cymorth Rhodd, os bodlonir yr amodau a ganlyn:

1. bod eglwysi lleol wedi defnyddio eu disgrisiwn i sefydlu cronfa i gefnogi Cronfeydd Cyfundebol – fel sy'n digwydd gyda rhoddion Offrwm y Pasg y bydd eglwysi lleol yn eu derbyn gan eu haelodau ar ran Cronfa'r Genhadaeth Fyd-eang.
2. bod eglwysi lleol yn bancio'r rhoddion hyn yn eu cyfrifon, a
3. bod eglwysi lleol yn anfon yr arian Cymorth Rhodd ymlaen i Gronfa'r Genhadaeth Fyd-eang.

Felly mae'r cyngor hwn i eglwysi Methodistiaid ar gyfer hawlio Cymorth Rhodd ar eu Hoffrwm Pasg yn seiliedig ar y ddealltwriaeth bod eglwysi lleol wedi defnyddio eu disgrisiwn i sefydlu cronfa i gefnogi Cronfa'r Genhadaeth Fyd-eang.

Mae canllawiau CThEM ar gasgliadau eglwysi a Chymorth Rhodd i'w cael ar wefan GOV.UK yn www.bit.ly/churchcollections

OPSIWN 1

A. Casglu rhoddion GYDA Chymorth Rhodd

- Fel sy'n digwydd gyda chasgliadau arbennig eraill (e.e. All We Can, MHA neu Gymorth Cristnogol) gofynnwch i swyddogion eich eglwysi (ysgrifenyddion Cymorth Rhodd neu swyddogion cyfatebol) gasglu amlenni casglu Offrwm y Pasg (gydag arian parod neu sieciau ynddynt) a gafwyd gan eu cynulleidfya, wedi'u selio a gyda'r manylion wedi'u llenwi. Dylid agor yr amlenni a rhoi'r cyfan i drysorydd yr eglwys (neu swyddog cyfatebol) er mwyn talu'r rhoddion i gyfrif banc yr eglwys.
- Os bydd yr eglwys wedi derbyn a bancio'r rhoddion yng nghyfrif banc yr eglwys, dylai swyddogion yr eglwys gadw amlenni gwag casgliad Offrwm y Pasg at ddibenion archwilio a chynnwys y rhoddion a fanciwyd ar ffurflen hawlio Cymorth Rhodd eu heglwys, sy'n cael ei chyflwyno i'r Gwasanaeth Swyddfa Cymorth Rhodd*. NI DDYLID anfon yr amlenni hyn at Adran Gyllid Methodist Church House oni bai ei bod yn amhosibl i'ch eglwys hawlio Cymorth Rhodd (gweler Opsiwn 2). Dylai pob eglwys gadw'r amlenni hyn am chwe blynedd yn unol â'r gofynion ar gyfer cadw cofnodion Cymorth Rhodd.

Y drefn uchod yw'r ffordd orau o ddelio â rhoddion ac fe hoffem i bob eglwys ddilyn y drefn hon os yn bosibl er mwyn hawlio Cymorth Rhodd ar roddion.

*Mae Gwasanaeth Swyddfa Cymorth Rhodd yr Eglwys Fethodistaidd yn prosesu hawliadau Cymorth Rhodd ar gyfer tua 4,000 o eglwysi bob blwyddyn, gan adennill tua £10m gan Gyllid a Thollau Ei Mawrhydi ar ran yr eglwysi hynny. Ar ôl prosesu'r hawliadau, bydd y Gwasanaeth yn trosglwyddo'r arian Cymorth Rhodd a ad-delir i bob eglwys unigol.

B. Anfon rhoddion ar gyfer Cronfa'r Genhadaeth Fyd-eang i mewn

Pan fydd eglwys wedi casglu a bancio ei rhoddion yng nghyfrif banc yr eglwys, gellir dewis pa un o'r canlynol i'w wneud:

- Gall trysorydd yr eglwys ysgrifennu siec, taladwy i "Gronfa Cenhadaeth Fyd-eang yr Eglwys Fethodistaidd" am gyfanswm y rhoddion. (Bydd angen anfon siec arall pan ad-delir yr arian Cymorth Rhodd). Yna dylid rhoi'r siec am y rhoddion i drysorydd Merched Methodistaidd ym Mhrydain yng ngwasanaeth cysegred Offrwm y Pasg yn y gylchdaith (neu ei hanfon drwy'r post). Wedyn dylai trysorydd Merched Methodistaidd ym Mhrydain yn y Gylchdaith gasglu'r holl sieciau a'u bancio gan ddefnyddio llyfr talu i mewn '02'.
- Os nad yw eglwysi'n gallu cysylltu â thrysorydd Merched Methodistaidd ym Mhrydain eu Cylchdaith, gellir anfon y siec i'r Adran Gyllid yn Methodist Church House gyda llythyr eglurhaol, gan nodi enw a rhif y Gylchdaith fel y gellir priodoli'r rhoddion i'r Gylchdaith dan sylw.

OPSIWN 2

Os na all yr eglwys hawlio Cymorth Rhodd drwy'r Gwasanaeth Swyddfa Cymorth Rhodd neu os yw sieciau eisoes yn daladwy i Gronfa'r Genhadaeth Fyd-eang, dylech ddilyn y cyfarwyddiadau isod:

A. Casglu rhoddion

Dylai swyddogion yr eglwys (ysgrifenyddion Cymorth Rhodd neu swyddogion cyfatebol) gasglu amlenni casglu Offrwm y Pasg (gydag arian parod neu sieciau ynddynt) a gafwyd gan eu cynulleidfya, wedi'u selio a gyda'r manylion wedi'u llenwi.

B. Anfon rhoddion i mewn

1. Anfonwch y rhoddion (sieciau/arian parod) a'r amlenni Cymorth Rhodd at drysorydd Merched Methodistaidd ym Mhrydain, a fydd yn bancio'r rhoddion gan ddefnyddio llyfr talu i mewn '02' ac yn anfon yr amlenni i'r Adran Gyllid yn Methodist Church House, gyda llythyr eglurhaol yn nodi bod y rhoddion wedi cael eu bancio ac ar ba ddyddiad ac yn rhoi enw a rhif y Gylchdaith.
2. **Oni all** eglwysi gysylltu â thrysorydd Merched Methodistaidd ym Mhrydain yn y Gylchdaith, gallant anfon y rhoddion a'r amlenni yn uniongyrchol i'r Adran Gyllid yn Methodist Church House.

Sylwer: Os dewiswch ddilyn Opsiwn 2, ni all eglwysi hawlio Cymorth Rhodd gan na fyddant wedi bancio rhoddion i'w cyfrifon eu hunain.

Yn y ddau achos, dylai unrhyw sieciau fod yn daladwy i "Cronfa'r Genhadaeth Fyd-eang" ac **nid** "Merched Methodistaidd ym Mhrydain" ac ni ddylid eu hanfon at Ferched Methodistaidd ym Mhrydain.

Am wybodaeth bellach ynglŷn â hawlio Cymorth Rhodd, y rheolau ar gyfer Cymorth Rhodd a chwestiynau cyffredin amdano, cysylltwch ag Ysgrifennydd Cymorth Rhodd eich eglwys.

Peidiwch ag anfon rhoddion sydd mewn arian parod i'r Swyddfa Gyllid drwy'r post. Rhowch yr arian parod i gyfrif eich eglwys ac anfonwch siec am yr un swm, yn daladwy i 'Gronfa'r Genhadaeth Fyd-eang'.

Atodiad i nodiadau'r arweinydd

Adnoddau ychwanegol

Cyflwyniad Yn yr atodiad hwn i brif ran nodiadau'r arweinydd cynigir detholiad o adnoddau a syniadau ychwanegol yn seiliedig ar thema 'Byrddau mwy, rhwystrau llai', y gallwch eu defnyddio os dymunwch. Mae'n bosibl defnyddio'r gweithgareddau dewisol hyn gyda phlant a phobl ifanc, gydag oedolion fel rhan o Wasanaeth Offrwm y Pasg neu mewn sesiwn ychwanegol neu gyda grŵp bychan. Gellir eu defnyddio hefyd fel rhan o sesiwn Llan Llanast neu ddigwyddiad arall i bobl o bob oed, gan ddewis ambell un o'r gweithgareddau a awgrymir. Mae rhwydd hynt i chi addasu'r deunydd i weddu i'ch amgylchiadau chi a bod yn greadigol!

Rhannu

O amgylch y bwrdd

Gosodwch fwrdd hir ac eistedd o'i amgylch. Rhannwch bryd syml, gan siarad â'ch gilydd a gwranddo.

Ystyriwch beth yw'r heriau o fod yn eistedd wrth fwrdd hir.

- All pawb glywed ei gilydd?
- A oes rhywun yn teimlo allan ohoni?
- Sut y gallwn ni gynnwys pawb?
- Beth am y rhai y mae'n well ganddynt eistedd a gwranddo?

Efallai yr hoffech ddefnyddio adnoddau 'Table Talk' sef gêm sgwrsio. Mae ar gael ar ffurf set o gardiau, yn benodol ar gyfer grwpiau a sefyllfaoedd arbennig, neu fel ap i'w lawrlwytho am ddim. Mae'r manylion i'w cael yn www.table-talk.org/

Pa weithgareddau eraill y gallech eu gwneud o amgylch eich bwrdd? Beth am gemau neu greffttau, neu ysgrifennu cardiau post neu lythyrau i gefnogi ymgyrch? Mae digon o bosibiliadau!

Darluniau a storïau

Defnyddiwch storïau eleni er mwyn ystyried sut y gellir cael byrddau mwy a rhwystrau llai.

Cymerwch un o'r lluniau ac edrych arno yn ofalus. Gallech ei ddangos ar sgrin neu argraffu copïau i bobl ei astudio. Ystyriwch y cwestiynau hyn ar gyfer y llun yr ydych wedi'i ddewis.

Byrddau mwy yng ngwledydd Prydain

- A oes pobl o wledydd a diwylliannau eraill yn byw yn eich ardal chi?
- Sut y gallech chi rannu storïau a thraddodiadau eich gilydd?
- Mae adeg gŵyl yn benthg ei hun – allech chi wahodd pobl i ddod â bwyd yn perthyn i'w traddodiad nhw ar gyfer pryd y byddwch yn ei rannu, neu ddangos rysâit a rhoi cynnig arno gyda'ch gilydd, fel y mae'r merched yn Nwyrain Anglia'n ei wneud? Wedyn, ystyriwch unrhyw eiriau a syniadau newydd yr ydych wedi'u dysgu drwy hyn.

Byrddau mwy yn yr Almaen

Yn ogystal â chyd-fwyta, mae gwneud rhywbeth ymarferol gyda'n gilydd yn gallu bod yn beth da. Mae dod ynghyd i wneud crefftau eisoes yn boblogaidd mewn llawer man.

- Oes gennych chi grwpiau o'r fath yn barod, er enghraifft Clwb Gwau neu 'Messy Vintage'?
- Os oes, allech chi wahodd rhywun i ymuno â chi, i wneud eich 'bwrdd yn fwy'?
- Allech chi sefydlu grŵp, neu gynnal digwyddiad, i ddysgu crefft newydd neu i helpu eraill – er enghraifft, gwau sgwariau ar gyfer babanod mewn gofal arbennig, gwau 'tedis trawma' ac yn y blaen?

Byrddau mwy yn Ethiopia

A ninnau'n llawer, un corff ydym, gan ein bod oll yn rhannu'r un bara. Dewch ynghyd i rannu pryd syml iawn, bara a dŵr neu sudd ffrwythau. Dewiswch dorth fawr i'w thorri a'i rhannu, gan gadw mewn cof anghenion y grŵp.

- Oes angen i'r dorth fod yn ddi-glwten?
- Sut y byddech chi'n dymuno gweddio dros y bara, fel y gwahoddwyd Jill Baker i wneud?
- Beth yw eich gweddïau a'ch dyheadau chi ar gyfer eich grŵp, eich teulu, eich cymuned, y byd?
- Ewch ati rywsut i ysgrifennu gweddi gyda'ch gilydd, yna defnyddio'r weddi cyn bwyta.

Efallai yr hoffech droi hyn yn wasanaeth Cymun syml, os gallwch gael rhywun i ddod sydd wedi'i awdurdodi i weinyddu.

Byrddau mwy ym Mangladesh

Yn hytrach na dodrefnyn, gall y bwrdd olygu man lle bydd cymuned neu grŵp yn cyfarfod fel cymuned. Yn y darlun o Fangladesh, nid oes bwrdd ond mae Laura Cook yn dweud mai'r gwersyll ffoaduriaid sy'n cyfateb i fwrdd.

- Allwch chi feddwl am bethau yn eich cymuned chi sy'n cynrychioli byrddau?
- Ble mae pobl yn dod at ei gilydd, neu'n canfod eu hunain yng nghwmni ei gilydd? Wrth aros i dalu mewn archfarchnad? Mewn ystafelloedd aros? Wrth aros am fws? Ar y trêen?
- Sut y gallwn ni adeiladu cymuned yn y manau hynny?

Byrddau mwy yn Ne Affrica

- A oes pobl a ddylai ddod ynghyd er mwyn annog ei gilydd?
- Allech chi wahodd pobl o wahanol eglwysi neu wahanol gymunedau ffydd yn eich ardal chi, i gael pryd o fwyd gyda'i gilydd – efallai gyda phawb yn dod â bwyd i'w rannu?
- Pa gwestiynau allech chi eu trafod â'ch gilydd?
- Sut y gallwch chi wrando'n ofalus ar eich gilydd a dod i adnabod eich gilydd yn well?

Meddwl

Edrych ar y darlenniadau o'r Beibl

Darllenwch y rhannau o'r Beibl sy'n cael eu defnyddio yng ngwasanaeth Offrwm y Pasg, sef Salm 146, Eseia 58:1-12 ac Ioan 6:1-13.

Efallai yr hoffech feddwl am y cwestiynau a ganlyn, gyda'ch gilydd mewn grŵp bach:

- Beth yw ystyr creu byrddau mwy, yn eich tyb chi – yn eich bywyd personol, yn eich cymuned ac yn y byd ehangach?
- Pa rwystrau ddylai fod yn llai, neu na ddylai fodoli o gwbl? Unwaith eto, ystyriwch enghreifftiau yn eich bywyd personol, eich cymuned a'r byd ehangach.
- Yn y darlenniad o Eseia, yn ogystal â chael ein hannog i ymestyn allan at eraill, fe gawn ein hatgoffa i beidio ag esgeuluso ein teuluoedd ein hunain. A oes perygl y bydd rhai ohonom yn gwneud hynny? Ym mha ffordd?
- Sut y gallwn ni ganfod cyfle i ddod i adnabod pobl sy'n wahanol i ni?
- Darllenwch stori 'Porthi'r pum mil' (Ioan 6:1-13) a thrafodwch y stori gyda'ch gilydd!


Wyddoch chi?

Hel ffeithiau

Ewch ati i wneud collage neu lyfryn ynglŷn â'r Almaen, Ethiopia, Bangladesh neu Dde Affrica. Chwiliwch am wybodaeth am y faner, iaith, arferion, hinsawdd, cerddoriaeth, bwyd ac yn y blaen.

Gwneud bara neu glai

Chwiliwch am wybodaeth am y bwyd, yn enwedig y bara, a fwyteir yn y gwledydd hyn a gwnewch roliau neu dorthau neu fara gwastad. Os nad oes arnoch eisiau pobi bara go iawn, gallech greu modelau o fara gan ddefnyddio clai neu does halen. Gallech wahodd pobl i osod y bara maent wedi ei wneud mewn basgedi neu ar blatiau ar fwrdd hir, fel rhan o wasanaeth Offrwm y Pasg.



Sut i wneud clai

- 1 llond mwg o flawd plaen
- Hanner llond mwg o halen
- 1 llond mwg o ddŵr
- 1 llwy fwrdd o olew (mae gan olew baban arogl dymunol)
- 2 lwy de o bowdr tartar
- Lliw bwyd

1. Rhowch y cynhwysion gyda'i gilydd mewn sosban.
2. Cynheswch yn ofalus gan droi'r cymysgedd nes iddo beidio â glynu yn ochr y sosban.
3. Tylinwch yn ofalus.
4. Cadwch mewn cynhwysydd aerdyn yn yr oergell.

Rhywbeth creadigol

Cerdd neu weddi acrostig

Defnyddiwch y geiriau 'BWRDD' a 'RHWYSTR' a meddylwch am linell ar gyfer pob llythyren yn y gair, i wneud cerdd neu weddi. Gwnewch arddangosfa o waith pawb.

Enghraifft: **B** – Bydd wrth ein bwrdd

W – Wrth inni

R – Rannu â phawb hyd

Dd – Ddiwedd y byd

Rh – Rhannwn


W – Weddi

Y – Ynghyd

S – Safwn gyda'n gilydd i roi

T – Terfyn ar

R – Rwystrau



Mae dolenni i adnoddau eraill, fel ffilmiau a chaneuon, i'w cael ar wefan Merched Methodistiaidd ym Mhrydain, ynghyd â lluniau a hanesion am wasanaethau Offrwm y Pasg a gynhaliwyd mewn blynyddoedd blaenorol. Ewch i www.mwib.org.uk i gael syniadau pellach ac ysbrydoliaeth. Cofiwch sicrhau bod gennych y trwyddedau angenrheidiol ar gyfer popeth y byddwch yn ei ddefnyddio.

Gwylwch a gwrandewch ar y gân Vagabonds

<https://youtu.be/s27D7M8biul>

a'r fideo hwn yn egluro pam wnaeth Stuart

Townend ei hysgrifennu:

https://www.youtube.com/watch?v=zryGXQb_yXI

Gwylwch y fideo yma gan All We Can

<https://vimeo.com/258645075>

yn glŷn â geneth o'r enw Asmida.



Merched Methodistiaidd
ym Mhrydain

Yr Eglwys **Fethodistaidd**



*Byw yn **hael***